CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 21 MEHEFIN 2005 YN NHŶ CARADOG, PLAS SANT ANDREW, CAERDYDD

Y Comisiynwyr	Yr Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. D Carr

1. DATGANIAD O DDIDDORDEBAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 16 MAI 2005

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION SY'N CODI

3.1 Materion MERLIN

3.1.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y bu mwy o ohebiaeth oddi wrth yr adran nawdd, ynghyd ag ymateb oddi wrth MERLIN, ynglŷn ag uwchraddio cyswllt data'r Comisiwn. Roedd MERLIN wedi dweud bod yr oedi wedi'i achosi gan broblemau â landlord Tŷ Caradog, ond bod y problemau hyn bellach wedi'u datrys ac y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn eithaf buan.

3.1.2 Adroddwyd bod MERLIN wedi datrys y problemau technegol a fu'n atal diweddaru gwefan y Comisiwn.

3.2 Cynghorwyr Cymunedol

3.2.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cael barn yr adran nawdd ynglŷn ag adolygiad o gyngor y Comisiwn, roddwyd yn 1976 ar nifer y cynghorwyr cymunedol. Bu ymateb yr adran nawdd yn gadarnhaol.

3.3 Cyllid – llofnodwyr sieciau

3.3.1 Adroddwyd bod yr adran nawdd o'r farn nad oedd hi'n amhriodol i Aelodau'r Comisiwn fod yn llofnodwyr sieciau, o ystyried pa mor fach yw'r Comisiwn.

3.4 Cynghorau Cymunedol

3.4.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cael ymatebion oddi wrth Un Llais i Gymru (ULlC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod i drafod materion yn ymwneud â chynghorau cymunedol. Dywedodd Un Llais i Gymru nad oeddent yn gallu mynychu cyfarfod ar hyn o bryd o ganlyniad i bwysau

gwaith ond eu bod yn fodlon cyfranogi drwy ohebiaeth ysgrifenedig. Cytunodd CLILC i gael cyfarfod â'r Ysgrifennydd ac mae hwn wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf.

3.4.2 Ystyriai'r Comisiwn y byddai'n ddefnyddiol sicrhau oddi wrth yr awdurdodau lleol lefelau cyfredol cynrychioliad a chyfrifoldeb cynghorau cymunedol yn eu hardaloedd. Yna, byddai'n bosibl datblygu strategaeth gyda chymorth ULlC, CLILC a'r cynghorau cymunedol.

3.5 Meddalwedd Cyfrifo

3.5.1 Cynghorwyd y Comisiwn y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trefnu cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru am arddangosiad o'r meddalwedd cyfrifo.

3.6 Ailwampio

3.6.1 Adroddodd yr Ysgrifenyddiaeth bod disgwyl i'r ailwampio ddechrau ddiwedd y mis ac y gwnaed trefniadau ar gyfer cael gwared â hen ddodrefn y Comisiwn.

3.7 Cyfarfod Agored Blynyddol

3.7.1 Cysylltwyd â'r adran nawdd ynghylch y posibilrwydd y gallent roi cyflwyniad ar yr adolygiadau etholiadau sydd ar ddod yn y CAB, ond roeddent wedi nodi na fyddent mewn sefyllfa i wneud hynny tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan fyddai'n rhy hwyr ar gyfer yr agenda.

3.7.2 Cytunodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru y byddai aelod o'u staff yn rhoi cyflwyniad ar fapio. Byddai Prif Weithredwr Ceredigion, Mr Owen Watkin, hefyd ar gael i wneud cyflwyniad.

3.8 Cyllid

3.8.1 Adroddwyd bod yr adran nawdd wedi nodi y gallai ariannu ychwanegol fod ar gael ar gyfer y Comisiwn ar gyfer 2006/07. Roeddent hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ad-dalu'r Comisiwn am y gwariant BCW a hawliodd y Cynulliad yn ei ôl oddi wrth ODPM.

4. ADOLYGIAD O'R FFIN RHWNG CYMUNEDAU BRACLA A COITY UWCH – DRAFFT O ADRODDIAD Y CYNIGION TERFYNOL

4.1 Cymeradwyodd y Comisiwn yr adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno'r adroddiad diwygiedig i gynghorwr cyfreithiol y Comisiwn.

5. CYHOEDDI COFNODION Y PWYLLGOR ARCHWILIO

5.1 Ystyriodd y Comisiwn y dylid cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Archwilio yn amodol ar wahardd unrhyw gynnwys cyfrinachol. Cytunwyd na fyddai'r Comisiwn yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd blaenorol y pwyllgor Archwilio ond y byddai'n dechrau'r arfer gyda chyhoeddi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2005.

6. CYNLLUN CYHOEDDIADAU DIWYGIEDIG

6.1 Cymeradwyodd y Comisiwn y cynllun yn amodol ar fân ddiwygiadau.

7. DIWEDDARIAD AR Y TREFNIADAU AR GYFER ADOLYGIADAU O ANGHYSONDEBAU O RAN FFINIAU

7.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol yng Nghymru i ofyn iddynt a oeddent yn ymwybodol o unrhyw faterion a oedd yn aros heb eu datrys o ran eu cymunedau a wardiau cymunedol, yr oedd angen mynd i'r afael â nhw cyn i'r Comisiwn ddechrau ar eu hadolygiad o drefniadau etholiadol, sydd ar ddod. Cynigodd hefyd gymorth y Comisiwn mewn unrhyw adolygiadau y gallai bod arnynt eisiau ymgymryd â hwy.

7.2 Cafwyd ymatebion oddi wrth nifer o awdurdodau lleol, a chynhaliwyd cyfarfod â Phrif Weithredwr Rhondda Cynon Taf a groesawodd gynnig y Comisiwn o gymorth. Gwahoddwyd yr Ysgrifennydd hefyd i gyfarfod â swyddogion nifer o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru, a threfnwyd y cyfarfodydd hyn ar gyfer yr wythnos sy'n dod. Ystyriwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i'r awdurdodau lleol adolygu sefyllfa eu holl gymunedau a nodi unrhyw anghysondebau. Yna gallent roi gwybod i'r Comisiwn, gan restru'r anghysondebau hyn a gofyn am gymorth wrth gynnal yr adolygiadau. Cai'r manylion hyn eu hanfon ymlaen at yr adran nawdd gyda chais am gyfarwyddyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol i gynorthwyo wrth gynnal yr adolygiadau.

7.3 Pe bai awdurdodau lleol yn dymuno cynnal adolygiadau o'u cymunedau, ystyriwyd y gellid awgrymu iddynt eu bod yn archwilio trefniadau etholiadol y gymuned ar yr un pryd. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn adrodd ar ganlyniad y cyfarfodydd ag awdurdodau lleol gogledd Cymru yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

8. UNRHYW FUSNES ARALL

8.1 Derbyniodd Cadeirydd y Comisiwn lythyr oddi wrth y Gweinidog dros Lywodraeth Leol yn gwahodd y Comisiwn i drafod yr adolygiad etholiadol sydd ar ddod yn y cyfarfod cysylltu blynyddol nesaf. Nid oedd unrhyw ddyddiad wedi'i bennu ar gyfer y cyfarfod cysylltu, ond gofynnwyd i'r Ysgrifennydd wneud y trefniadau angenrheidiol.

8.2 Cadarnhaodd yr adran nawdd y dylai adolygiad pum-mlyneddol nesaf y Comisiwn gael ei gynnal, toc, ond nad oedd unrhyw ddyddiad wedi'i bennu eto.

8.3 Nododd y Commission fod disgwyl i'r Un Llais Cymru gynnal eu cyfarfod cyffredinol blynyddol cyn hir, ac ystyrid y dylai'r Comisiwn gael ei gynrychioli. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cael manylion y cyfarfod ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9.1 Pennwyd dyddiad y cyfarfod nesaf ar 26 Gorffennaf 2005 am 10.30 a.m.